TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/*SUBJECT*:

Polisi Arfaethedig Dyraniad Ychwanegol Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio
Proposed Policy Additional Allocation Minimum Staffing Protection

---

AELOD CABINET/CABINET MEMBER:

Y Cynghorydd / *Councillor* Gareth Thomas

PENDERFYNIAD/*DECISION*:

Addasu'r polisi dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswn staffio i ysgolion i gynnwys cymal i leihau'r dyraniad gwarchodaeth yn gyfatebol i'r elfen balansau sydd dros 5%, gan ddefnyddio'r swm balansau ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol ddiweddaraf gafodd ei gyhoeddi.

Amend the additional allocation minimum staffing protection policy for schools to include a clause to reduce the protection allocation to match the balances element that is over 5% using the balances sum at the end of the latest published financial year.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/*REASONS FOR THE DECISION:*

Gyda lefel balansau Ysgolion Cynradd Gwynedd yn parhau ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae galw blynyddol o sawl cyfeiriad , gan gynnwys Penaethiaid, Cynghorwyr a Rhieni, i adolygu'r sail cyllido, yn arbennig ar gyfer yr ysgolion sydd â balansau uchel a sy'n derbyn dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm staffio.

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda holl ysgolion Gwynedd a chyflwynwyd yr ymatebion a dderbyniwyd i gyfarfod y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 18 Tachwedd 2015. Roedd 36 (80%) allan o'r 45 ymateb derbyniwyd o blaid mabwysiadu'r polisi arfaethedig.

Argymhelliad y Fforwm Cyllideb Ysgolion oedd mabwysiadau'r polisi arfaethedig.

Cyrhaeddais at fy mhenderfyniad uchod wedi i mi ystyried yr holl faterion gan gynnwys ystyried ymatebion ysgolion i'r ymgynghoriad ac argymhelliad y Fforwm Cyllideb Ysgolion.

With the level of Gwynedd Primary Schools' balances being amongst the highest in Wales, there are annual demands from several directions, including Headteachers, Councillors and Parents, to review the funding basis, particularly for schools with high balances and who receive a minimum staffing protection additional allocation.

All Gwynedd schools were consulted and the responses received were presented to the Schools Finance Forum on the 18 November 2015. Of the 45 responses received, 36 (80%) were in favour of adopting the revised policy.

The Schools Finance Forum's recommendation was to adopt the revised policy.

I arrived at my above decision following consideration of all matters including schools' responses to the consultation and the Schools Finance Forum's recommendation.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ *RELEVANT CONSIDERATIONS*

Adroddiad llawn a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 18 Tachwedd 2015, Eitem 6
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=162&mid=252&ver=4&
ac ychwanegu'r cymal isod i'r polisi:

'Gall gweithredu'r polisi arfaethedig effeithio trefniadau a chynlluniau rhai ysgolion o ran gallu gosod cyllideb gytbwys. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen cynnal trafodaeth gyda'r Adran Addysg a all arwain at benderfyniad gan yr Adran Addysg i adfer lefel gwarchodaeth ysgol yn rhannol neu yn llawn.'

Y Polisi Gwarchodaeth Presennol

Ysgolion Cynradd : Os yw nifer disgyblion ysgol trwy'r fformiwla dyrannu cynradd yn cynhyrchu llai na 2 athro, mae'r polisi gwarchodaeth yn darparu dyraniad ychwanegol ar gyfer cynyddu'r nifer athrawon i 2, sef Pennaeth ac Athro. Mewn Ysgolion sydd gyda llai na 15 disgybl, y polisi yw darparu dyraniad gwarchodaeth ychwanegol er mwyn cyflogi Pennaeth a Chymhorthydd Dosbarth.

Ysgolion Uwchradd : Os yw nifer disgyblion ysgol trwy'r fformiwla dyrannu uwchradd yn cynhyrchu llai na 18.17 athro, mae'r polisi gwarchodaeth yn darparu dyraniad ychwanegol ar gyfer cynyddu'r nifer athrawon i 18.17.

A full report presented to the School Budget Forum meeting on the 18 November 2015, Item 6
https://democracy.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=162&mid=252&ver=4
and appending the clause below to the policy:

'Implementing the revised policy could affect existing plans and arrangements of some schools with respect to their ability to set a balanced budget. Under those circumstances discussions should take place with the Education Department which may lead to a decision by the Education Department to restore the schools protection level in full or in part.'

The Current Protection Policy

<u>Primary Schools</u>: If the number of school pupils through the primary allocation formula equate to fewer than 2 teachers, the protection policy provides an additional allocation to increase the number of teachers to 2, namely a Headteacher and Teacher. At schools attended by fewer than 15 pupils, the policy is to provide an additional allocation in order to employ a Headteacher and Classroom Assistant.

<u>Secondary Schools</u>: If the number of school pupils through the secondary allocation formula equate to fewer than 18.17 teachers, the protection policy provides an additional allocation to increase the number of teachers to 18.17.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/*VIEWS OF STATUTORY OFFICERS*

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:

“Dim i’w ychwanegu i’r daflen hon sydd yn gyson â barn y Fforwm Cyllideb Ysgolion a’r mwyafrif clir o’r ysgolion a ymatebodd i’r ymgynghoriad arno.”

“Nothing to add as this notice is consistent with the view of the Schools Finance Forum and the clear majority of those schools who responded to the consultation”

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:

“Noder fod yr addasiad arfaethedig i’r polisi yma sydd wedi bodoli ers cryn amser wedi ei gymeradwyo gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn sgil proses ymgynghorol. Mae’r elfen ddarpariaeth fydd yn gwarchod ysgolion perthnasol, ble e.e. mae’r balansau eisoes wedi eu hymrwymo, yn elfen bwysig o sicrhau cyfundrefn briodol a theg fydd yn gyfrwng i reoli ardrawiad y newid yma. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.”

”Note that the proposed modification to this policy which has been in existence for some time has been commended by the Schools Finance Forum following a consultation process. The provision which protects the relevant schools, e.g. where balances have been committed, is important in ensuring a fair and appropriate system which manages the impact of this change. No further comments from a propriety perspective”

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:

“Rwy’n cefnogi penderfyniad yr Aelod Cabinet i addasu’r polisi er mwyn ystyried lefel balansau’r ysgol (elfen dros 5%) yn gyntaf, cyn darparu’r “rhwyd diogelu” o gyllid ychwanegol ar gyfer gwarchod lefel staffio ysgolion gyda nifer isel o ddisgyblion.”

I support the Cabinet Members decision to modify the policy in order that the level of balances (over 5%) is considered first, before providing the additional "safety net" funding to protect the staffing level of schools with low number of pupils."

BARN YR AELOD LLEOL/*VIEW OF LOCAL MEMBER*

Dim yn fater lleol.

Not a local issue.

LLOFNOD /*SIGNED*

DYDDIAD/*DATE*

17 Mawrth 2016